**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Economi ac Isadeiledd

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 8 Mawrth 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| N J Davies | P R Hood-Williams | O G James |
| M A Langstone | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Geoff Bacon | Rheolwr Strategol Corfforaethol - Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Lisa Wells | City Centre Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard, S M Jones a/ac J W Jones

---

**37 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw ddiddordebau.

**38 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2018 fel cofnod cywir.

**39 Cynllun Creu Parth Cerddwyr Stryd y Gwynt. (Llafar).**

Darparodd Rheolwr Canol y Ddinas ddiweddariad mewn perthynas â throi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr.

Nododd yr aelodau gefndir y cynnig.

Mae cynnydd wedi bod yn gadarnhaol, cyhyd ag y mae ymgynghorwyr wedi bod yn rhan ohono ac mae cynllun gwaith wedi'i ddatblygu. Roedd y cynllun gwaith yn cynnwys tri cham: (i) y broses cynllunio busnes gan gynnwys ymchwil a dadansoddiad (ii) dylunio (iii) mireinio/costau a dichonoldeb cyllid.

Nododd Rheolwr Canol y Ddinas fod cam 1 bron wedi'i gwblhau a bod gweithdy a oedd yn cynnwys cynghorwyr a swyddogion wedi bod yn ymarfer llwyddiannus.

Byddai'r astudiaeth dichonoldeb yn cael ei chwblhau a'i hadrodd i'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Ebrill/dechrau mis Mai 2018.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nododd Rheolwr Canol y Ddinas y canlynol:

- Byddai penderfyniadau sy'n ymwneud â chyllid yn cael eu gwneud pan fydd yr astudiaeth dichonoldeb wedi'i chwblhau. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i godi arian drwy BID, cytundebau 106 ac opsiynau cyllid Ewropeaidd;
- Ymgynghorir â'r Grŵp Cydgysylltu Anableddau a fydd yn cyflwyno sylwadau o ran eu dewisiadau;
- Rhoddwyd y dasg o archwilio opsiynau o ran Stryd Caer a Stryd y Gwynt i'r ymgynghorwyr;
- Datganodd y busnesau lleol ar Stryd y Gwynt y byddai buddion economaidd o ganlyniad i droi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr;
- Y prif ffactor oedd y gwahaniaeth rhwng yr economi gyda'r dydd a chyda'r hwyr. Byddai strategaeth yn cael ei datblygu er mwyn ceisio hyrwyddo arallgyfeirio mangreoedd a symud oddi wrth sefydliadau lle mae swm uchel o yfed';
- Mae'r Heddlu'n cefnogi creu parth i gerddwyr yn gyffredinol;

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Canol y Ddinas am ei chyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** aildrefnu astudiaeth dichonoldeb troi Stryd y Gwynt yn barth cerddwyr ar gyfer cyfarfod 12 Ebrill 2018.

## 40 Tai Cydweithredol - Geoff Bacon.

Cyflwynodd y Rheolwr Eiddo adroddiad ar Dai Cydweithredol Cyngor Abertawe.

Manylodd ar y cefndir, y rhesymeg, sut mae'r cynlluniau'n cael eu datblygu, ymagwedd 'lawr gwlad', sefydliadau cymunedol sy'n bodoli eisoes, mentrau 'o'r brig i'r gwaelod' a'r gefnogaeth sydd ar gael i Gyngor Abertawe.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nododd y Rheolwr Eiddo'r canlynol:

- Byddai cylch gorchwyl yn cael ei archwilio;
- Bydd strategaethau penodol yn cael eu datblygu er mwyn diogelu sefydliadau 'llawr gwlad';
- Byddai gan denantiaid lai o ddiogelwch na thenantiaeth y 'Ddeddf Tai';
- O ran cyfrifoldebau, bydd gan y Tai Cydweithredol hawliau a chyfrifoldebau clir;

Adroddodd y Rheolwr Eiddo mai'r cam nesaf yw cael barn fewnol ar yr ymagwedd beilot gyntaf ar sail 'o'r pen i'r gwaelod, o'r gwaelod i fyny' a phenderfynu ar bartner Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a lleoliad. Yna, gallai polisi cyngor gael ei ddatblygu ar dai cydweithredol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Eiddo am ei gyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** y byddai'r Rheolwr Eiddo'n darparu'r diweddaraf ar y cynnydd i'r pwyllgor ym mis Mai 2018.

**41 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2017-18.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lleoedd at yr eitem y Cerbydlu Gwyrdd ac awgrymodd y gallai hyn fod yn rhan o'r cynllun gwaith ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/2019.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lleoedd at y Fargen Ddinesig a Strategaeth Trafnidiaeth y Dyfodol.

**Penderfynwyd:**

1) Trefnu astudiaeth dichonoldeb troi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr ar gyfer 12 Ebrill 2018;
2) Trefnu Strategaeth Trafnidiaeth y Dyfodol ar gyfer cyfarfod arbennig yng nghyfarfod mis Mai 2018;
3) Cyflwyno adroddiad o ddatganiad sefyllfa ar waith y pwyllgor i'w gyflwyno ym mis Mai 2018.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.59 pm

**Cadeirydd**